Welsh NHS Confederation
Health and Wellbeing Alliance

Mewn partneriaeth â'r:
Royal College of Physicians | Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

# Sut mae eich adran o'r llywodraeth yn gweithio i leihau effaith tlodi ac anghydraddoldebau?

24 Ebrill 2023

**Rydym wedi dod ynghyd fel 33 sefydliad heddiw i ofyn i chi sut mae eich adran o'r llywodraeth yn gweithio i leihau effaith anghydraddoldebau.**

Cymru sydd â'r gyfradd tlodi uchaf ymysg pedair gwlad y DU, gyda bron i un o bob pedwar (23%) o bobl mewn tlodi. Mae hyn yn cael ei sbarduno gan y gyfran gymharol uchel o oedolion o oedran gweithio sy'n ddi-waith (25%) neu sy'n gweithio swyddi 'arferol' sy'n talu llai fel arfer (32% o oedolion mewn gwaith).

Mae'r argyfwng costau byw yn gwaethygu tlodi ac anghydraddoldebau yng Nghymru, yn ôl Sefydliad Bevan, sy'n dweud bod 'nifer fawr o bobl yn mynd heb hanfodion, gan gynnwys pedwar o bob deg yn mynd heb wres yn eu cartrefi, ac un o bob pedwar yn bwyta prydau llai neu'n peidio â bwyta rhai prydau bwyd'. Dywedodd Archwilio Cymru mai tlodi yw'r her fawr sy'n wynebu pob haen o lywodraeth.

**Mae wir angen cynllun cyflawni cenedlaethol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.**

Mae ein sefydliadau'n galw am gynllun cyflawni cydgysylltiedig cenedlaethol sy'n nodi cerrig milltir, amserlenni a thargedau clir sy'n nodi'r hyn y mae pob un o adrannau llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn eu cylch gwaith, a sut mae gweinidogion yn cydweithio i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar bobl Cymru. Dan arweiniad y Prif Weinidog, dylai'r cynllun hwn gael ei siapio gan brofiad go iawn a dylai gael ei ysgrifennu ar y cyd â rhanddeiliaid allanol.

> 'Mae cynghorau a phartneriaid yn blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond mae'r cymysgedd o ddulliau gweithredu a'r cyd-destun partneriaeth cymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n fawr.
>
> 'Mae llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid refeniw sylweddol ar gael ond, oherwydd cymhlethdod a natur y materion, nid yw cyfanswm y gwariant yn hysbys, ac nid oes yr un cyngor yn gwybod beth yw hyd a lled ei wariant ar liniaru a mynd i'r afael â thlodi.
>
> 'Mae natur tymor byr rhaglenni grant, gweinyddiaeth rhy gymhleth, gwendidau mewn canllawiau a chyfyngiadau grant, ac anawsterau gwario arian yn golygu nad yw cyllid yn cael yr effaith y gallai ei chael. Mae cynghorau'n ei chael yn anodd cyflawni gwaith ataliol oherwydd maint y galw gan bobl mewn argyfwng.' (Archwilio Cymru)

Fel y gwyddoch, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus – gan gynnwys llywodraeth Cymru – feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Yn 2021, fe wnaeth llywodraeth Cymru hefyd roi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar waith, sy'n ceisio gwella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Oherwydd hyn, dywedwyd wrthym nad oes angen cynllun trawslywodraethol; bod gennym eisoes adnoddau ar gael i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, lleihau tlodi a gwella lles.

**Mae'n bosibl bod yr adnoddau ar gael, ond a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol?**

> 'Mae angen gweithredu parhaus ar sawl lefel o'r llywodraeth: cenhadaeth genedlaethol barhaus i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb; partneriaeth leol a chenedlaethol newydd i greu'r amodau ar gyfer llwyddiant y system; ac arweinyddiaeth leol i feithrin y tarfu sydd ei angen i gynnal llwyddiant.' (The King's Fund)

Ym mis Gorffennaf 2022, daeth llawer o'n sefydliadau at ei gilydd i alw ar Lywodraeth Cymru i gyfuno ymrwymiadau ar leihau anghydraddoldebau a mapio gweithgarwch presennol ar leihau tlodi er mwyn gwella atebolrwydd trawslywodraethol, darparu canllawiau gweithredu cenedlaethol manylach i gyrff cyflawni lleol, a chyflwyno rheoliadau asesu effaith ar iechyd fel blaenoriaeth.

> 'Mae angen i bobl deimlo'n obeithiol ... mae angen polisïau arnom sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl nid yn unig oroesi, ond ffynnu.' – Y Parchedicaf Andrew John, Archesgob Anglicanaidd Cymru

Ym mis Rhagfyr 2021, lansiodd llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru Raglen Lywodraethu (diweddariad) 2021–2026, sy'n cynnwys ymrwymiad i 'weithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math'. Cyfeirir at anghydraddoldeb hefyd yn y ddogfen naratif ar gyfer cyllideb ddrafft 2023-24 llywodraeth Cymru: ond dim ond 16 gwaith mae 'cyfartal' wedi'i gynnwys (gan gynnwys y geiriau cydraddoldeb, anghydraddoldeb neu anghydraddoldebau), i lawr o 43 yn nogfen naratif 2022–23 pan oedd y gweinidog cyllid yn dadlau 'ni allwn, ac ni fyddwn, yn anwybyddu'r effaith ddinistriol y mae'r pandemig yn parhau i'w chael ar bobl Cymru [sydd heb] effeithio ar bobl yn gyfartal nac yn deg.'

**Gwyddom – er enghraifft – fod tai gwael, ansawdd bwyd, diogelwch cymunedol, incwm isel, tlodi tanwydd, hiliaeth a gwahaniaethu, cysylltiadau trafnidiaeth gwael a llygredd aer i gyd yn cael effaith fawr ar les a chanlyniadau pobl.**

Yn nogfen naratif cyllideb 2023-24, mae llywodraeth Cymru yn cydnabod bod '[y] pandemig, chwyddiant cynyddol a'r argyfwng costau byw i gyd wedi cael effaith andwyol ar anghydraddoldeb yng Nghymru.' Fodd bynnag, nid oes esboniad cyffredinol yn unrhyw un o'r dogfennau hyn ynghylch sut bydd gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn cael ei

gydlynu, sut bydd canlyniadau'n cael eu mesur a sut bydd gweinidogion yn cael eu dal yn atebol am sicrhau newid.

> 'Mae tystiolaeth yn dangos bod dull cynhwysfawr o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn gallu gwneud gwahaniaeth. Mae angen gweithredu systematig ar sawl elfen.' (The King's Fund)

**Nid yw hwn yn ddull hollol newydd. Mae wedi cael ei wneud o'r blaen.**

Er enghraifft, ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd y dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, y cynllun plant a phobl ifanc, sy'n cydgrynhoi blaenoriaethau llywodraeth Cymru ac yn meithrin gwaith trawsffiniol. Yn gynharach eleni, casglodd cynllun gweithredu LHDTC+ Cymru dros 50 o gamau gweithredu ar draws sawl adran a maes polisi llywodraeth Cymru.

> 'Ni fydd creu cenedl sy'n gwerthfawrogi ac yn gwarchod iechyd pobl, gan alluogi bywydau iachach, yn digwydd drwy un polisi unigol. Mae angen newid radical o ran ffocws, ymdrech ac atebolrwydd.' (The Health Foundation)

**Nawr rydym yn gofyn i'ch adran ysgrifennu atom gyda gwybodaeth fanylach am sut rydych chi a'ch swyddogion yn gweithio i leihau effaith anghydraddoldebau a thlodi ar draws eich cyfrifoldebau portffolio gweinidogol.**

Hoffem wybod:

1. Sut ydych chi a'ch swyddogion yn cyflawni ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 i 'weithredu i ddileu anghydraddoldeb'?
2. Sut ydych chi a'ch swyddogion yn gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth i gynyddu effaith eich gwaith?
3. Sut yr ydych chi a'ch swyddogion yn defnyddio'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i sicrhau bod penderfyniadau strategol sy'n cael eu gwneud gan eich adran yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb canlyniadau?

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi.

Byddem hefyd yn fwy na pharod i gwrdd â chi i drafod y gwaith hwn.

Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Welsh NHS Confederation
Health and Wellbeing Alliance

Mewn partneriaeth â'r:
Royal College of Physicians | Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

## Mae'r llythyr hwn wedi'i lofnodi gan:

Anabledd Dysgu Cymru
Asthma + Lung UK Cymru
BMA Cymru Wales
Cartrefi Cymunedol Cymru
Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin
Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr
Coleg Brenhinol y Meddygon
Coleg Brenhinol y Meddygon a Llawfeddygon Glasgow
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion
Coleg Nyrsio Brenhinol
Coleg y Parafeddygon
Community Leisure UK
Conffederasiwn GIG Cymru
Cymdeithas Brydeinig ar gyfer Methiant y Galon
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
Cymdeithas Geriatreg Prydain
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain
Cymdeithas Strôc Cymru
Cynghrair Niwrolegol Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Gofal a Thrwsio Cymru
Gofal Canser Tenovus
Leonard Cheshire
Marie Curie
MS Society Cymru
Parkinson's UK Cymru
RNIB Cymru
Samaritans Cymru
Shine Cymru
Triniaeth Deg i Fenywod Cymru

**Ein gwaith:** Mae is-grŵp Cynghrair Iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru ar anghydraddoldebau iechyd yn cael ei gynnull gan Goleg Brenhinol y Meddygon ac mae wedi cyhoeddi *Cofiwch y bwlch: beth sy'n atal newid?*, a gafodd ei gymeradwyo gan 50 o sefydliadau ym mis Gorffennaf 2022. Yn ddiweddarach yr un flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi *Mae popeth yn effeithio ar iechyd*, sy'n disgrifio sut mae sefydliadau rheng flaen o bob rhan o Gymru yn gweithio gyda'i gilydd ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y celfyddydau, cyngor ar fudd-daliadau a lles, trafnidiaeth, unigrwydd, newid yn yr hinsawdd, llygredd aer a llawer mwy.

@WelshConfed

www.nhsconfed.org/wales/health-and-wellbeing-alliance

@RCPWales

www.rcp.ac.uk/wales

#EverythingAffectsHealth